UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Tâl a Phensiynau

# Trosglwyddo i'r Cynllun Pensiwn Athrawon Newydd

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Trosglwyddo i'r Cynllun Pensiwn Athrawon Newydd

### Y Cynllun Gwarchodaeth Raddol i athrawon rhwng 49½ a 53 oed ar 1 Ebrill 2015

Daeth Cynllun Pensiwn Athrawon newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Nid yw'r newidiadau'n effeithio ar athrawon oedd dros 53 oed ar y diwrnod hwnnw.

Bydd pob athro sy'n dal i gyfrannu at bensiwn athrawon ar y 1 Ebrill 2022 yn trosglwyddo i'r cynllun pensiwn newydd ar y dyddiad hwnnw.

Mae athrawon oedd yn talu i'r hen gynllun pensiwn ers cyn 2007, ac oedd rhwng 49½ a 53 oed ar 1 Ebrill 2015, yn aros yn yr hen gynllun am gyfnod pellach dan Gynllun Gwarchodaeth Raddol (*Tapered Protection*) gan ymuno â'r Cynllun Newydd ar ddyddiad diweddarach.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y dyddiad y bydd athrawon oedd rhwng 49½ a 53 oed ar 1 Ebrill 2015 yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Newydd:

| Oed ar 1 Ebrill 2015 | | Dyddiad cyntaf yn y Cynllun Newydd | Oed adeg ymuno | |
|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd | Misoedd | | Blynyddoedd | Misoedd |
| 52 | 11 | 01/02/2022 | 59 | 9 |
| 52 | 10 | 01/12/2021 | 59 | 6 |
| 52 | 9 | 01/10/2021 | 59 | 3 |
| 52 | 8 | 01/08/2021 | 59 | 0 |
| 52 | 7 | 01/06/2021 | 58 | 9 |
| 52 | 6 | 01/04/2021 | 58 | 6 |
| 52 | 5 | 01/02/2021 | 58 | 3 |
| 52 | 4 | 01/12/2020 | 58 | 0 |
| 52 | 3 | 01/10/2020 | 57 | 9 |
| 52 | 2 | 01/08/2020 | 57 | 6 |
| 52 | 1 | 01/06/2020 | 57 | 3 |
| 52 | 0 | 01/04/2020 | 57 | 0 |
| 51 | 11 | 01/02/2020 | 56 | 9 |
| 51 | 10 | 01/12/2019 | 56 | 6 |
| 51 | 9 | 01/10/2019 | 56 | 3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 51 | 8 | 01/08/2019 | 56 | 0 |
| 51 | 7 | 01/06/2019 | 55 | 9 |
| 51 | 6 | 01/04/2019 | 55 | 6 |
| 51 | 5 | 01/02/2019 | 55 | 3 |
| 51 | 4 | 01/12/2018 | 55 | 0 |
| 51 | 3 | 01/10/2018 | 54 | 9 |
| 51 | 2 | 01/08/2018 | 54 | 6 |
| 51 | 1 | 01/06/2018 | 54 | 3 |
| 51 | 0 | 01/04/2018 | 54 | 0 |
| 50 | 11 | 01/02/2018 | 53 | 9 |
| 50 | 10 | 01/12/2017 | 53 | 6 |
| 50 | 9 | 01/10/2017 | 53 | 3 |
| 50 | 8 | 01/08/2017 | 53 | 0 |
| 50 | 7 | 01/06/2017 | 52 | 9 |
| 50 | 6 | 01/04/2017 | 52 | 6 |
| 50 | 5 | 01/02/2017 | 52 | 3 |
| 50 | 4 | 01/12/2016 | 52 | 0 |
| 50 | 3 | 01/10/2016 | 51 | 9 |
| 50 | 2 | 01/08/2016 | 51 | 6 |
| 50 | 1 | 01/06/2016 | 51 | 3 |
| 50 | 0 | 01/04/2016 | 51 | 0 |
| 49 | 11 | 01/02/2016 | 50 | 9 |
| 49 | 10 | 01/12/2015 | 50 | 6 |
| 49 | 9 | 01/10/2015 | 50 | 3 |
| 49 | 8 | 01/08/2015 | 50 | 0 |
| 49 | 7 | 01/06/2015 | 49 | 9 |

Bydd y gwasanaeth sydd wedi’i gronni hyd y dyddiad ymuno yn aros dan delerau'r hen gynllun, sy'n rhoi pensiwn yn seiliedig ar y cyflog terfynol ac sydd hefyd yn rhoi talpswm sy'n deirgwaith y pensiwn blynyddol.

Bydd y gwasanaeth ar ôl y dyddiad yn y golofn ganol yn arwain at bensiwn dan y telerau newydd, fydd yn seiliedig ar gyfartaledd cyflog - gweler y daflen **Ymddeoliad a'ch Pensiwn** am eglurhad pellach am hyn.

## Aelodau i gael dewis

Yn sgil dyfarniad gan y Llysoedd, mae'r Llywodraeth wedi addasu'r dewis pensiwn i'r aelodau o'r cynllun fydd yn y categori gwarchodaeth raddol.

Erbyn hyn gall aelodau ddewis, ar adeg eu ymddeoliad, derbyn pensiwn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar yr hen gynllun pensiwn cyflog terfynol hyd at 1 Ebrill 2022, neu dderbyn y rhan honno o'r pensiwn ar y cynllun newydd cyfartaledd cyflog.

Bydd modd gwirio'r union daliadau pensiwn drwy cysylltu gyda Teachers Pensions ar eu llinell gymorth neu drwy wirio'ch manylion pensiwn personol ar eich cyfrif pensiwn arlein.

Rydym yn cynghori aelodau i gysylltu gyda Teachers Pensions i dderbyn y manylion llawn ar hyn cyn ymddeol ac i dderbyn cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud y penderfyniad.

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu â:**

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Is-ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Chwefror 2022**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru